# Gwasanaeth Natur Cymru: Diweddariad

Mae Gwasanaeth Natur Cymru (GNC) yn fudiad cenedlaethol sy'n gwasanaethu byd natur ac adferiad byd natur.

Trwy gyfrwng rhwydwaith ledled y wlad, sy'n tyfu, o bartneriaid cyflenwi lleol, bydd Gwasanaeth Natur Cymru yn creu cyfleoedd i bobl o bob cefndir ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r Argyfyngau Natur a Hinsawdd. Bydd hyn yn grymuso dinasyddion i fod yn rhan o'r ateb ac adeiladu sylfaen gryfach ar gyfer adferiad byd natur – drwy feithrin gallu, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau – tra'n sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol a llesiant ehangach.

Mae Cymru yn un o'r gwledydd sydd wedi lleihau fwyaf o ran natur yn y byd, ond gyda'r un uchelgais beiddgar ag a arloesodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan Gymru'r potensial i ddod yn arweinydd byd-eang ym maes adfer natur. Wrth uno dinasyddion, sefydliadau a mentrau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector drwy Wasanaeth Natur Cenedlaethol i Gymru, gyda'n gilydd gallwn roi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith, a chreu dyfodol sy'n ffynnu, sy'n gyfoethog o ran natur ac sy'n gallu ymdopi â'r hinsawdd.

## Partneriaid Sefydlu

Mae Gwasanaeth Natur Cymru wedi'i lunio gan fewnbwn cyfunol dros 100 o randdeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, sydd wedi helpu i fireinio ei weledigaeth a'i gynigion. Mae'r Partneriaid Sefydlu yn cynnwys:

- Groundwork Cymru
- Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
- Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- RSPB Cymru
- Y Brifysgol Agored
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Eryri

- Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Mae'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfioli a sefydlu Gwasanaeth Natur Cymru, gyda ffocws nawr ar dyfu'r bartneriaeth ac ehangu rhwydwaith cenedlaethol o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion.

## Cynnydd Hyd Yma

Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar osod y sylfeini ar gyfer Gwasanaeth Natur Cymru, gan gynnwys:

- **Penodi Cyfarwyddwr:** Gyda chymorth cyllid gan Sefydliad Esmee Fairbairn ac o dan adain y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, mae cyfarwyddwr wedi'i benodi i arwain datblygiad Gwasanaeth Natur Cymru.
- **Datblygu Safonau ac Egwyddorion Craidd:** Sefydlu'r gwerthoedd a'r amcanion a rennir a fydd yn arwain gwaith a datblygiad Gwasanaeth Natur Cymru.
- **Dylunio Strwythurau Llywodraethu:** Datblygu model cydweithredol a strwythur cyfreithiol i sefydlu sylfaen gref ar gyfer cydgysylltu â phartneriaid ledled Cymru a datblygu'r weledigaeth genedlaethol gyffredin hon.
- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Cyfarfod â sefydliadau a sectorau allweddol i alinio ar flaenoriaethau a rennir a thyfu'r mudiad.
- **Sicrhau ac Ymestyn Cyllid:** Mae cyllid cychwynnol wedi'i sicrhau gan Sefydliad Esmee Fairbairn i gefnogi'r cam datblygu, ac mae ceisiadau am arian ychwanegol ar y gweill i gyflawni'r uchelgeisiau ehangach.
- **Archwilio Rhaglenni Cyflawni Posibl:** Archwilio mentrau newydd, megis sut y gallwn sicrhau y gall pob person ifanc 16 – 24 oed yng Nghymru gymryd rhan mewn prosiect adfer natur neu brosiect sgiliau seiliedig ar natur.
- **Ymestyn Ymchwil:** Gweithio gyda phartneriaid i ddod ag ymchwil bresennol ynghyd a chomisiynu astudiaethau newydd o amgylch bylchau sgiliau, anghenion capasiti a rhwystrau i ymgysylltu, gan sicrhau ymagwedd wybodus at ddatblygiad a blaenoriaethau GNC.
- **Cynllunio Digwyddiad Pierhead Gwasanaeth Natur Cymru:** Paratoi ar gyfer digwyddiad carreg filltir i ffurfioli GNC ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio ei ddyfodol.

## Digwyddiad Buan

**Dyddiad:** Chwefror 4 2025, 10am – 3:30pm
**Lleoliad:** Prif Neuadd y Pierhead, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, CF10 4PZ
**I Gofrestru:** Ewch i'r dudalen Eventbrite - Gwasanaeth Natur Cymru

**"Gwasanaeth Natur Cymru: Adeiladu Sylfeini Mudiad Cenedlaethol"**

Pleser yw eich gwahodd i ddigwyddiad sy'n nodi cyfnod newydd yn natblygiad GNC. Dyma gyfle unigryw i ddysgu mwy am ein gwaith a helpu i lunio'r cynlluniau a fydd yn sail i Wasanaeth Natur Cymru, gyda'r nod o:

- Adeiladu'r sgiliau a'r gallu sydd eu hangen i ryddhau'r potensial ar gyfer miloedd o swyddi adfywio natur ar draws Cymru yn y dyfodol.
- Mynd i'r afael â'r argyfwng parhaol drwy rymuso dinasyddion o bob math o gefndiroedd gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i adfywio natur tra'n meithrin llesiant drwy gyfrwng profiadau go iawn.
- Angori llythrennedd natur ar draws Cymru i sicrhau bod ein dinasyddion i gyd yn deall ac yn gwarchod y systemau naturiol sy'n hanfodol i fywyd a gwytnwch cymunedol.

**Rydym yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth barhaus ein partneriaid sefydlu ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr newydd a thyfu'r bartneriaeth honno wrth i ni gymryd y cam nesaf pwysig hwn.**

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod sut y gall eich sefydliad gymryd rhan, mae croeso i chi gysylltu â ni.**

**Cysylltwch â:** Cyfarwyddwr GNC, Daniel Lock – Daniel.lock@ffcc.co.uk